**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion a gynhaliwyd yn Ystafell Aeron Fach, Campws Felin-fach ar ddydd Mawrth, 19 Mai, 2015.**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd).

**Aelodau nad ydynt o ysgolion**: Mr Eifion Evans (Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau).

**Aelodau Ysgolion**:
Cynrychiolwyr Ysgolion Gynradd: Lodwick Lloyd a Peter Wellington (Llywodraethwyr).
3-16, 3-19 a Chynrychiolwyr Ysgolion Uwchradd: Jane Wyn (Pennaeth) a Chris Evans (Llywodraethwr).

**Swyddogion a oedd yn bresennol**: Gwyn Jones, Chris Macey (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol), Kay Davies (Gwasanaethau Democrataidd).

7.00 pm – 8.15 pm

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Derrick Jones, Alwyn Ward, Donna Hanly, Ann Elonwy Renolf, Stephen Cooper a Meinir Lewis am iddynt fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol**

Nid ddatgelwyd buddiant personol.

**3 Cofnodion Cyfarfod Blaenorol**

**CYTUNWYD** cadarnhau fel cofnod cywir cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2014 yn amodol ar ychwanegu enw'r Cynghorydd Rowland Rees-Evans i'r rhestr o'r rheiny a oedd yn bresennol.

**4 Materion yn codi o'r Cofnodion**

**7. Casglu Arian yn Electronig**

Hysbyswyd y cyfarfod gan y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau fod canlyniad y cynllun peilot ar gardiau electronig yn ymddangos yn bositif. Rhagwelir y caiff y cardiau, a fydd yn galluogi disgyblion i dalu am eu cinio gan hefyd gael mynediad i wasanaethau megis llyfrgelloedd a phyllau nofio ayb gael eu cyflwyno i holl ddisgyblion uwchradd yn yr hydref / gaeaf.

**5 Perfformiad Ariannol Drafft ar gyfer Gwasanaethau Dysgu 2014-15**

Bu i'r Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Strategaethau gyflwyno Perfformiad Ariannol Drafft Gwasanaethau Dysgu 2014 – 15 a oedd ar hyn o bryd yn dangos gorwariant o £60k. Llwyddwyd cyflawni arbedion o fewn y Gyllideb Gwella Ysgolion o ganlyniad i beidio â llanw swyddi gwag ar unwaith pan oedd staff yn gadael. Nodwyd fod pwysau ariannol yn cynnwys cynnydd yng nghostau trafnidiaeth ysgolion, gorwariant Hyfforddiant Ceredigion a'r penderfyniad i beidio â chau Ysgol Gynradd Dihewyd.

Nodwyd y caiff Addysg Ôl 16 ei hadolygu er mwyn sicrhau nad oes gorwariant pellach.

**CYTUNWYD** nodi'r adroddiad.

**6 Cronfeydd Ysgolion – drafft ar 31 Mawrth 2015**

Nodwyd gan y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau ei fod yn galonogol nodi fod y mwyafrif o ysgolion wedi aros o fewn y gyllideb yn ystod blwyddyn anodd i awn i ysgolion. Dywedwyd fod nifer o swyddi wedi eu colli yn y sector cynradd ac uwchradd. Mae'r sefyllfa yn Ysgol Penglais yn parhau'n heriol – mae niferoedd y disgyblion wedi cynyddu ym mlwyddyn 12 a 13 gyda disgyblion yn mynychu'r ysgol o ardaloedd Machynlleth a Dolgellau fodd bynnag mae'r niferoedd yn isel yn y blynyddoedd iau. Ymgymerir â chynllun ailstrwythuro dros 2 flynedd yn Ysgol Penglais.

Mae niferoedd disgyblion yn parhau i ostwng ar draws y sir. Er bod nifer o ddisgyblion o ochr draw'r ffin yn mynd i ysgolion yn y sir yma, mae llefydd gwag yn parhau yn yr ysgolion.

Bu i fformiwla ariannu newydd a luniwyd gan Chris Macey, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, gael ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**7 Cyllideb y Gwasanaethau Dysgu 2015-16**

Bu i Chris Macey, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol gyflwyno'r adroddiad ar Gyllideb 2015-16 y Gwasanaethau Dysgu. Dywedodd fod tri pheth wedi ei dorri o'r gyllideb sy'n effeithio ar y Gwasanaethau Dysgu sef, Addysg Ôl 16 (£0.5 miliwn), Gwasanaethau Arlwyo a'r gwasanaeth trafnidiaeth i ysgolion. Mae gweithgor ar hyn o bryd yn ymgymryd ag Adolygiad Arlwyo ar holl wasanaethau arlwyo yn y Sir. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r adain drafnidiaeth er mwyn cyflawni arbedion o £350k. Gofynnir i holl ddisgyblion 6ed dosbarth nodi os bydd angen sedd arnynt am ddim ar fysiau ysgol. Caiff nifer a maint bysiau ysgol eu rhesymoli yn unol â nifer y seddau sydd eu hangen. Caiff defnydd a thrywydd tacsis ysgol eu hadolygu.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**8 Cyllidebau Fformiwla Ysgolion 2015-16**

Nodwyd o ganlyniad i'r strategaethau sydd mewn lle fod cyfran y gyllideb fesul disgybl wedi gwella'n sylweddol ac yn darparu darpariaeth fwy cytbwys ar draws yr ysgolion. Fodd bynnag, bydd mwy o newidiadau mawr pellach yn 2016.
Nodwyd fod y system lliw i ddynodi lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion, a luniwyd gan Barry Rees, Pennaeth Gwasanaethau Dysgu wedi ei ddatblygu i'w ddefnyddio'n genedlaethol. Mae Swyddogion wedi cydweithio er mwyn symleiddio'r fformiwla a ddefnyddir.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**9 Cyllidebau Gwaith Ysgolion 2015-16**

Dywedodd Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau y bydd yn ofynnol i ysgolion gyflwyno eu cyllidebau erbyn 1 Mehefin. Mae Gwasanaethau Dysgu yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion hynny sydd â diffyn yn eu cyllidebau gan eu cynorthwyo drwy'r prosesau gan gynnwys ailstrwythuro a lleihau swyddi. Mae Ysgol Henry Richard ac Ysgol Uwchradd Aberteifi wedi mynegi eu gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a dderbyniwyd drwy Gytundeb lefel gwasanaeth y gyllideb.

**10 Grant Gwella Addysg 2015-16**

Dywedodd Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau wrth y cyfarfod o'r newidiadau i'r arian grant a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Hysbyswyd y cyfarfod fod Llywodraeth Cymru wedi rhesymoli grantiau unigol i ffurfio Grant Gwella Addysg sy'n cynnwys y Cyfnod Sylfaen. Mae amodau a thelerau'r grant yn ffocysu ar ganlyniadau disgyblion yn hytrach na'r archwiliad fel yn y gorffennol. Fodd bynnag bydd trafodaethau pellach er mwyn ceisio llacio'r amodau a thelerau. Mae Ysgolion wedi derbyn eu dyraniadau eleni.

**11 Ysgol Bro Teifi**

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau ar Ysgol Bro Teifi. Mae Ysgol newydd BroTeifi a'r Ysgol newydd yn Nrefach yn gynwysedig ym mhrosiect band A Ysgolion 21ain Ganrif sy'n darparu 50% o'r arian. Bydd gweddill yr arian o fenthyciadau darbodus, gwerthiant asedau (ysgolion na ddefnyddir mwyach) a chyfalaf oddi wrth y Cyngor. Clustnodwyd hefyd symiau ychwanegol ar gyfer gwaith pellach yn Ysgol Tregaron. Bu i Lywodraeth Cymru wahodd Ceredigion i ailbroffilio. Bydd Bwrdd Prosiect Bro Teifi, yn ogystal â Gwyn Jones, Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol ac Eifion Evans, Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau ddilyn system Rheoli Prince II gan graffu'n fanwl gwariant y prosiect. Cynhaliwyd Gweithdy Aelodau er mwyn darparu gwybodaeth i Aelodau. Dywedodd Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau taw dyma oedd yr unig brosiect a gefnogir gan Lywodraeth Cymru sydd y tu blaen amser ac o dan y gyllideb. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r prosiect fel astudiaeth achos ar reoli ariannol er mwyn hyrwyddo arferion da ar draws y Sir. Bu i Lywodraeth Cymru wahodd y Sir i gyflwyno cais am arian am fod tanwariant ar gael o feysydd eraill.

Dywedodd Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau fod prosesau llym mewn lle i oruchwylio'r prosiect ac y mae Gateway / Porth Llywodraeth Cymru wedi sicrhau archwilio yn ystod y broses.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**12 Unrhyw fater arall**

i. Dosbarthwyd er gwybodaeth llythyr ac ymateb i Ysgol Penglais.
ii. Dymunwyd yn dda i Gwyn Jones, Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol yn ar ei ymddeoliad. Diolchwyd iddo am ei holl waith a chefnogaeth dros y blynyddoedd.
iii. Caiff dyddiad y cyfarfod nesaf ei ddosbarthu'n fuan.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Fforwm ar xxxxxx, 2015.

**Cadeirydd**